



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Adolygiad o ddiwygiadau 2014 i asiantau gorfodi a gyflwynwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007

Cais am Dystiolaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 25 Tachwedd 2018

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 17 Chwefror 2019

Amddiffyn a hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder

[leave this page blank – back of cover]



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

**Adolygiad o ddiwygiadau 2014 i asiantau gorfodi a
gyflwynwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a
Gorfodaeth 2007**

Cais am Dystiolaeth

Cais am dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Ynglŷn â'r cais hwn am dystiolaeth

- I:** Pob parti â diddordeb, yn arbennig y rhai â phrofiad o weithredu rheoliadau asiantau gorfodi ers i'r diwygiadau ddod i rym ym mis Ebrill 2014. Mae hyn yn cynnwys, y diwydiant gorfodaeth, credydwyr sy'n cyflogi asiantau gorfodi, dyledwyr, y sector cyngori a'r farnwriaeth.
- Hyd:** O 25/11/18 hyd at 17/02/19
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:** Civil Procedure and Enforcement Team
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
E-bost: EAreview@justice.gov.uk
- Sut mae ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 17 Chwefror 2019 at:
Civil Procedure and Enforcement Team
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
E-bost: EAreview@justice.gov.uk
- Papur ymateb:** Cyhoeddir ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth erbyn **[dd/mm/bb]** yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Foreword	3
Executive summary	4
Introduction	8
Scope of the review and questions	10
Next Steps	21
About you	22
Contact details / How to respond	23
Annex A: Glossary of term	25
Annex B: Legislative framework	27
Annex C: Fixed fee structure	28

[leave this page blank – back of contents page]

Rhagair

Mae'r llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau bod pob asiant gorfodi (a elwid yn feiliaid yn flaenorol) yn trin dyledwyr mewn ffordd deg a'u bod yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol a chymesur. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen gorfodi dyledion ar gyfer yr economi a'r system gyfiawnder a bod asiantau gorfodi yn cyflawni rôl anodd, mewn amgylchiadau heriol yn aml.

Cafwyd pecyn o ddiwygiadau drwy Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, a'u cyflwyno gan y llywodraeth yn 2014 (diwygiadau 2014). Eu bwriad oedd cynnig diogelwch i ddyledwyr rhag yr ymgais ymosodol gan asiantau gorfodi i sicrhau eu dyled, a chydbwysu hyn yr un pryd yn erbyn yr angen am ddulliau gorfodaeth effeithiol a hawliau credydwyr.

Cyflwynodd diwygiadau 2014 gyfres o reolau sy'n nodi pa nwyddau y gall asiant gorfodi eu cymryd a'r rhai na allant eu cymryd, sut a phryd y gallant gael mynediad i eiddo a phaffioedd y gallant eu codi. Roeddent yn cyflwyno hyfforddiant gorfodol a phroses ardystio uwch yn y llysoedd i asiantau gorfodi. Roeddent hefyd yn darparu diogelwch i bobl agored i niwed er mwyn iddynt allu cael cymorth a chyngor, gan fynnu bod yn rhaid i asiantau gorfodi gael eu hyfforddi i adnabod pobl agored i niwed.

Ar ôl cael barn gan amrywiol randdeiliaid a dadansoddi amrywiaeth o ddata, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr adolygiad cyntaf o'r diwygiadau hynny ar 2 Ebrill 2018. Roedd yr adolygiad hwn yn edrych ar effaith y diwygiadau yn ystod y flwyddyn gyntaf o'u rhoi ar waith. Daeth i'r casgliad eu bod wedi arwain at nifer o newidiadau cadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys tryloywder a chysondeb gwell, yn nhermau'r broses orfodaeth ei hun a'r ffioedd a godir gan yr asiantau gorfodi. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad fod rhai asiantau gorfodi yn parhau i gael eu hystyried fel rhai sy'n gweithredu'n ymosodol ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau newydd.

Mae'n hollbwysig bod gan y cyhoedd hyder mewn asiantau gorfodi a'u bod yn cael eu rheoleiddio'n briodol. Rwyf yn lansio'r cais hwn am dystiolaeth er mwyn i'r rhai sydd wedi cael cyswllt ag asiantau gorfodi ddarparu adborth am eu profiadau er mwyn llywio ein hail adolygiad o'r diwygiadau.

Rwyf hefyd yn awyddus i glywed gan y rhai sy'n gweithio gyda'r rheoliadau, er enghraifft asiantau gorfodi a'u sefydliadau masnach, sefydliadau cyngor am ddyled, credydwyr a'r farnwriaeth ynglŷn â gweithredu'r diwygiadau.

Byddwn yn annog unrhyw un sydd â diddordeb i fwydo eu profiadau i'n hadolygiad. Byddwn yn ystyried yr ymatebion y byddwn yn eu derbyn ac yn cyhoeddi adroddiad adolygu ôl-gweithredu ac, os oes angen, byddwn yn cyhoeddi camau gweithredu sy'n deillio o'n canfyddiadau i sicrhau bod pob asiant gorfodi yn trin dyledwyr yn deg.

Lucy Frazer CF AS

Yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

Crynodeb gweithredol

Pwrpas yr Adolygiad

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gofyn am farn am y diwygiadau sydd yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007¹ ynghylch sut mae asiantau gorfodi'n gweithredu a'r ffioedd maent yn ei godi. Cafodd y diwygiadau eu gweithredu ym mis Ebrill 2014. Bydd y dystiolaeth a geir yn cael ei defnyddio i lunio ail adolygiad ôl-weithredu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o ddiwygiadau 2014.

Cwmpas yr adolygiad – Asiantau gorfodi a'r mathau o ddyledion a gesglir

Defnyddir asiantau gorfodi, a elwid yn feiliaid yn flaenorol, i gasglu dyledion heb eu talu ar ran credydwyr (gan gynnwys awdurdodau lleol, adrannau'r llywodraeth a chredydwyr preifat sydd wedi cael dyfarniadau llys). Mae ganddynt y pŵer cyfreithiol i gymryd a gwerthu nwyddau drwy warantau a gwritiau rheolaeth (ar gyfer llysoedd sir a'r uchel lysoedd yn y drefn honno) sy'n talu am werth y ddyled ac sydd hefyd yn codi ffi ar y dyledwr.

Mae dau brif grŵp o asiantau gorfodi sy'n cael sylw yn yr adolygiad hwn: Asiantau gorfodaeth sifil (a elwir hefyd yn asiantau gorfodi ardystiedig neu'n feiliaid preifat) a Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys (HCEO). Ar hyn o bryd mae tua 2,500 o asiantau gorfodaeth sifil² ac mae ychydig mwy na 40 o Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys sydd wedi'u cofrestru â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Caniateir i asiantau gorfodaeth sifil orfodi dyledion penodol fel y dreth gyngor, cosbau traffig ac ardrethi annomestig. Maent hefyd yn delio ag atafaelu nwyddau tenant ar gyfer landlord er mwyn sicrhau taliad ar gyfer ôl-ddyledion rhent heb i'r llys orfod ymyrryd.

Mae Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yn gorfodi gwritiau rheolaeth a gwritiau atafaelu'r Uchel Lys. Hefyd, gall Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys orfodi dyfarniadau arian y llys sirol pan fydd y swm y ceisir ei orfodi yn fwy na £600 ac mae'r credydwr yn dewis trosglwyddo'r ddyled i'r Uchel Lys i'w gorfodi.

Nid yw trydydd grŵp o asiantau gorfodi, sef swyddogion gorfodi'r llys sirol (a elwir hefyd yn feiliaid y llys sirol) wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn. Er eu bod yn gweithredu o dan yr un weithdrefn (o ran sut maent yn cael mynediad i eiddo ac yn y blaen), cyflogeion y Goron ydynt. Felly, nid ydynt yn codi ffioedd ac nid oes angen iddynt fod yn ardystiedig. Mae asiantau gorfodi'r llys sirol yn gorfodi dyfarniadau a gorchmynion a wneir ac sydd wedi'u cofrestru yn y llys sirol (hyd at £5,000 mewn gwerth). Maent yn gorfodi gwarantau rheolaeth, adfeddiannu tir gyda gwarantau meddiant ac yn adfer nwyddau o dan warantau ar gyfer dychwelyd nwyddau.

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) hefyd yn defnyddio darpariaethau Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 i gasglu ôl-ddyledion treth gan ddefnyddio asiantau gorfodi sy'n gyflogeion y Goron ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/15/contents>

² Cofrestr Beiliaid Ardystiedig (<http://www.justice.gov.uk/courts/enforcement-officers>)

Y diwygiadau gorfodi

Cyn diwygiadau 2014, roedd y gyfraith a'r systemau costau a oedd yn gysylltiedig â gorfodaeth drwy atafaelu a gwerthu nwyddau yn gymhleth, yn aneglur ac yn ddryslyd. Byddai hyn yn arwain, mewn rhai achosion, at asiantau gorfodi yn cam-gyfleu eu hawdurdod cyfreithiol er anfantais i ddyledwyr.

Nid oedd strwythurau costau yn eglur, roeddent yn anodd eu dehongli mewn rhai achosion ac nid oeddent yn rhoi cydnabyddiaeth ddigonol am bob agwedd ar y gwaith gorfodi. Roedd y ffactorau hyn, gyda'i gilydd, yn achosi i'r broses codi ffioedd gael ei chamddefnyddio.

Nod trosfwaol y diwygiadau a gyflwynwyd yn 2014 oedd sicrhau diogelwch rhag asiantau gorfodi a oedd yn defnyddio dulliau ymosodol, a sicrhau ar yr un pryd bod modd casglu dyledion yn effeithiol. Yn benodol, roedd y diwygiadau yn ceisio cydbwysu'r amcanion canlynol:

- Darparu mwy o ddiogelwch rhag asiantau gorfodi ymosodol a sicrhau ar yr un pryd bod modd casglu dyledion yn effeithiol.
- Trefn deg, dryloyw a chynaliadwy ar gyfer costau sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol ddigonol.
- Lleihau rheoleiddio gormodol ar fusnesau ond gan sicrhau bod pobl fregus yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol.

Dyma'r mesurau penodol a gyflwynwyd gan y diwygiadau:

- Cyfres syml o reolau sy'n nodi pryd y caiff asiant gorfodi fynediad i eiddo a pha nwyddau y gallant ac na allant eu cymryd.³
- Un strwythur ffioedd sy'n nodi'n glir y taliadau y gellir eu codi ar ddyledwr yn ystod pob cam gorfodi.⁴
- Proses ardystio newydd ar gyfer asiantau gorfodi er mwyn sicrhau mai nhw yw'r bobl addas ar gyfer y swydd.⁵
- Hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod gan asiantau gorfodi y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl.⁶

Adolygiad ôl-weithredu o'r diwygiadau

Gwnaed ymrwymiad gan y llywodraeth ddiwethaf i adolygu'r diwygiadau ar ôl un, tair a, phe byddai angen, pum mlynedd.

Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei hadolygiad cyntaf yn 2015, a'i chyhoeddi yn 2018⁷, ar ôl casglu barn helaeth gan randdeiliaid allweddol gan gynnwys credydwyr, y sector cynghori, asiantaethau eraill y llywodraeth ac asiantau gorfodi.

Gwelodd yr adolygiad fod y diwygiadau ar y pwynt un flwyddyn yn 2015, yn dwyn llawer o fanteision cadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth well o hawliau'r dyledwr a

³ <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1894/contents/made>

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1/contents/made>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/421/contents/made>

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/421/contents/made>

⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/one-year-review-of-enforcement-agent-reforms>

sut i gwyno, mwy o eglurder i ddyledwyr am y ffioedd y gellir eu codi, y prosesau y dylid eu dilyn, a lle i fynd i gael cyngor. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod cynghorwyr dyledwyr a dyledwyr yn parhau i fod o'r farn bod rhai asiantau gorfodi yn gweithredu'n ymosodol ac nad oeddent yn gweithredu'n unol â'r rheoliadau mewn rhai achosion. Rydym yn ystyried y pryderon hyn o ddifrif, ac mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gofyn am sylwadau gan bob parti sydd â diddordeb am ymddygiad asiantau gorfodi.

Mae'r cais am dystiolaeth yn galw am farn am y pynciau canlynol:

- trin dyledwyr;
- cwynion a phrosesau;
- hyfforddiant ac ardystio asiantau gorfodi;
- proses agored a chyson;
- y ffioedd a godir;
- Adfer Ôl-ddyledion Rhent masnachol;
- a oes angen unrhyw reoliadau pellach.

Rydym yn cynnal adolygiad ar wahân i gasglu tystiolaeth gan y Gymdeithas Gorfodaeth Sifil (CIVEA) a Chymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys ynglŷn â chyfraddau adfer dyledion, a fydd yn cyfrannu at yr adolygiad.

Cymryd rheolaeth dros Nwyddau: Safonau Cenedlaethol

Yn y Cais hwn am Dystiolaeth pan fyddwn ni'n cyfeirio at y ddogfen Safonau Cenedlaethol, rydym ni'n cyfeirio at ddogfen a gaiff ei chyhoeddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder⁸. Bwriedir i'r safonau hyn gael eu defnyddio gan yr holl asiantau gorfodi, cyhoeddus a phreifat, yr asiantaethau gorfodi sy'n eu cyflogi a'r credydwyr sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Mae'r safonau'n cynnwys:

- beth y dylai credydwyr ei wneud os ydynt am ddefnyddio asiantau gorfodi;
- dyletswyddau moesegol a phroffesiynol;
- y broses cwynion a disgyblu;
- amseroedd ac oriau ymweliadau;
- cael mynediad i eiddo;
- cymryd nwyddau;
- delio ag unigolion agored i niwed.

Nid yw'r safonau hyn yn disodli'r gyfraith, codau ymarfer na chytundebau lleol. Bwriedir iddynt fod yn adnodd defnyddiol i'r diwydiant a chredydwyr, y gallant eu defnyddio i feincnodi eu safonau proffesiynol.

⁸ <https://www.gov.uk/government/publications/bailiffs-and-enforcement-agents-national-standards> k

Camau gweithredu'r Llywodraeth i gefnogi pobl sy'n dioddef problemau dyledion a gwella arfer credydwr

Mae'r llywodraeth yn ystyried sut y gall gynorthwyo dyledwyr agored i niwed sydd â dyledion ariannol drwy wahanol fentrau. Mae'r rhain yn cynnwys y mentrau canlynol i helpu pobl mewn dyled ac i sicrhau bod credydwr yn gweithredu'n gyfrifol.

Amser i anadlu: Roedd gweithredu cynllun amser i anadlu yn ymrwymiad manifesto yn 2017. Mae dwy elfen i'r cynllun: cyfnod o amser i anadlu a chynllun ad-dalu dyledion statudol. Byddai amser i anadlu yn rhoi'r hawl i rywun â phroblem ddyledion ddifrifol gael diogelwch cyfreithiol rhag eu credydwr am gyfnod o amser, er mwyn gallu derbyn cyngor am eu dyledion a chytuno ar ateb cynaliadwy i'w dyledion. Byddai cynllun ad-dalu dyledion statudol (SDRP) yn galluogi'r rheini â dyledion na allant eu rheoli greu cytundeb i dalu eu dyledion o fewn amserlen realistig. Byddai unigolion sy'n cytuno â'r cynllun hwn yn cael diogelwch cyfreithiol rhag camau gweithredu credydwr yn ystod eu cynllun.

Mae'r llywodraeth yn ymrwymedig i weithredu'r cynllun gynted ag y bo'n ymarferol ac, i'r perwyl hwn, lansiodd Trysorlys EM ymgynghoriad ar un cynnig polisi ar 29 Hydref 2018.

Grŵp Tegwch: Mae'r llywodraeth wedi sefydlu grŵp tegwch, sy'n cynnwys adrannau llywodraeth ganolog, gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac aelodau o'r sector cyngori am ddyledion. Pwrpas y grŵp hwn yw creu sgwrs agored rhwng y llywodraeth a'r sector cyngori am ddyledion er mwyn trafod tegwch.

Prosiect Diwygio Gorfodaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi (GLIThEM)

Fel rhan o'i Raglen ehangach o Ddiwygiadau, mae GLIThEM yn canolbwyntio ar wella ei Wasanaeth Gorfodaeth Sifil sy'n darparu ar gyfer gorfodi dyfarniadau terfynol, gorchmynion neu ddyfarniadau sy'n deillio o achosion sifil, teulu a thriwlynlysoedd, yn ogystal ag o adrannau eraill y llywodraeth. Mae'r Prosiect Gorfodaeth Sifil yn brosiect dwy flynedd a hanner a ddechreuodd ym mis Ionawr 2018. Gweledigaeth y prosiect yw darparu gwasanaeth gorfodaeth sifil ddigidol, syml sy'n cefnogi defnyddwyr i orfodi dyfarniad sifil, teulu neu driwlynlys di-dâl ac sy'n sicrhau canlyniad teg a chyfiawn i bob parti perthnasol.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio i ddechrau ar wella'r canllawiau a'r wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr am yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer gorfodaeth ar ôl i ddyfarniad gael ei wneud ac am y dulliau gorfodaeth (Gwarantau a Gwritiau Rheolaeth) sy'n cyfrif am 75% o'r holl geisiadau gorfodaeth.

Mae rhestr termau ar gael yn **Atodiad A**.

Mae dolenni i'r ddeddfwriaeth sy'n ategu deddfwriaeth asiantau gorfodi ar gael yn **Atodiad B**.

Cyflwyniad

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gofyn am safbwyntiau ar ddiwygiadau asiantau gorfodi a ddaeth i rym yn 2014.

Rydym yn awyddus i glywed gennych chi os oes gennych brofiad o waith asiantau gorfodi yng Nghymru a Lloegr ers i'r diwygiadau ddod i rym ym mis Ebrill 2014.

Mae papur Saesneg ar gael yn [\[insert link-\]](#).

Mae copïau o'r cais am dystiolaeth yn cael eu hanfon at:

- Advice UK
- Age UK
- Cymdeithas y Barnwyr Rhanbarth
- Cymdeithas Bancio Prydain
- Cymdeithas Parcio Prydain
- Ffederasiwn Eiddo Prydain
- Cymdeithas Asiantau Gorfodi Ardystiedig
- Sefydliad Siartredig Rheoli Credyd
- Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
- Cymdeithas y Plant
- Cristnogion yn erbyn Tlodi
- Yr Eglwys yn Gweithredu yn erbyn Tlodi
- Cymdeithas Defnyddwyr Llysoedd Sifil
- Cyngor ar Bopeth
- Cymdeithas Gorfodaeth Sifil
- Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil
- Y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yn Lloegr
- Cyngor Ariannol Cymunedol
- Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Mawrhydi
- Cymdeithas Gwasanaethau Credyd
- Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol
- Sefydliad Cyngor am Ddyledion
- Grŵp Diwygio Cyfraith Gorfodaeth
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cymdeithas Cyllid a Phrydlesu
- Cymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys

- Y Comisiynydd Gwybodaeth
- Sefydliad y Cyngorwyr Ariannol
- Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw
- Coleg y Farnwriaeth
- Awdurdodau Lleol
- Fforwm Gorfodaeth Sifil Awdurdodau Lleol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol
- MIND
- Grŵp Cyswllt Cyngor Ariannol
- Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol
- Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol
- Sefydliad Polisi Iechyd Meddwl ac Arian
- Gwasanaeth Llysoedd Gogledd Iwerddon
- PayPlan
- Phoenix Consulting
- Gweithrediaeth yr Alban
- Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- Uwch Feistr
- StepChange
- Transport for London
- Cynulliad Cymru
- Z2K

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn un gynhwysfawr na dethol, a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y cais hwn am dystiolaeth, neu sydd â barn am y pwnc hwn.

Cwmpas yr adolygiad a chwestiynau

Canfu'r adolygiad un flwyddyn, a gynhaliwyd yn 2015 (a'i gyhoeddi ym mis Ebrill 2018), fod nifer o elfennau'r diwygiadau yn parhau i gael eu hymgorffori ac y byddai angen rhagor o amser i'r effeithiau llawn ddod i'r amlwg. Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i asesu'r *sefyllfa bresennol* ac felly rydym yn awyddus i glywed am brofiadau gweithredu diweddar gan asiantau gorfodi ac a yw'r rhain wedi newid, a sut maent wedi newid, ers y cyfnod un flwyddyn.

Dim ond tystiolaeth am sut mae Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys ac asiantau gorfodaeth sifil (a elwir hefyd yn asiantau gorfodi ardystiedig neu'n feiliaid preifat) yn gweithredu rydym yn ei chasglu.

Rydym yn gwerthfawrogi nad yw pobl yn gwybod o bosib pa fath o asiant gorfodi sydd wedi cysylltu â nhw. Rydym wedi rhestru isod y mathau o ddyledion a gesglir gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys ac asiantau gorfodaeth sifil er mwyn helpu pobl i adnabod pa fath o asiant gorfodi a gysylltodd â nhw.

Mae Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys yn gorfodi Gwritiau'r Uchel Lys, mewn cysylltiad â dyfarniadau'r Uchel Lys neu Ddyfarniadau Llys Sirol sy'n werth mwy na £600, pan fydd y credydwr wedi gwneud cais i'r ddyled gael ei throsglwyddo i'r Uchel Lys i'w gorfodi. Gallai'r ddyled gynnwys:

- **biliau cyfleustodau;**
- **dyledion busnes;**
- **dyfarniadau tribiwnlys; neu**
- **ôl-ddyledion rhent.**

Ni all Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys orfodi dyfarniadau llys mewn cysylltiad â dyledion sy'n cael eu rheoleiddio gan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr (a elwir hefyd yn ddyled wedi'i rheoleiddio), er enghraifft, cardiau credyd, benthyciadau personol neu orddrafftiau. Mae dyfarniadau llys sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o ddyledion yn cael eu gorfodi gan feiliaid y Llys Sirol, sydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn.

Mae asiantau gorfodaeth sifil yn gorfodi'r mathau canlynol o ddyledion:

- **y dreth gyngor;**
- **dirwyon parcio;**
- **hysbysiadau cosb benodedig sy'n ymwneud â thraffig;**
- **dirwyon llys ynadon;**
- **taliadau cynnal plant; ac**
- **ôl-ddyledion rhent masnachol.**

Adran 1: Trin dyledwyr

1.1 Ymddygiad asiantau gorfodi

Mae camau gweithredu gan asiant gorfodi, yn ôl ei natur, yn ymwithiol. Weithiau mae angen i asiant gorfodi fod yn bendant a chadarn os ydynt am fod yn effeithiol. Fodd bynnag, mae neges y llywodraeth yn glir nad yw ymddygiad ymosodol gan asiantau gorfodi yn dderbyniol. Cynlluniwyd diwygiadau 2014 i ddiogelu rhag ymddygiad o'r fath, drwy:

- ei gwneud yn ofynnol i asiantau gorfodi gyflwyno llythyrau a hysbysiadau safonol, sy'n hysbysu'r dyledwyr am y broses orfodaeth, faint a godir arnynt, eu hawliau a lle i gael cyngor pellach.
- cyflwyno system reoleiddio newydd ynglŷn â'r hyn y gall asiantau gorfodi ei wneud, wedi'i hategu gan broses hyfforddi ac ardystio newydd.
- cyflwyno system ffioedd sy'n glir ac yn dryloyw.

Canfu'r adolygiad cyntaf bod y diwygiadau wedi ysgogi nifer o newidiadau cadarnhaol. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai cynghorwyr dyledion a dyledwyr yn parhau i fod o'r farn bod rhai asiantau gorfodi yn gweithredu mewn ffordd ymosodol ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau newydd.

Rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth gan unrhyw un sydd wedi profi camau gweithredu diweddar gan asiant gorfodi (o fewn y 12 mis diwethaf yn fras). Yn ogystal â thystiolaeth o ymddygiad amhriodol, rydym yn awyddus hefyd i glywed am brofiadau lle rydych chi o'r farn bod yr asiant wedi gweithredu'n deg ac o fewn cwmpas y rheoliadau.

Deallwn nad yw derbyn ymweliad gan asiant gorfodi yn brofiad dymunol. Fodd bynnag, yn aml bydd anfodlonrwydd y dyledwr wedi'i anelu at y credydwr am gymryd y cam gorfodi hwnnw, yn hytrach na'r asiant gorfodi. Nid yr asiant gorfodi sy'n penderfynu pa ddyledion sy'n cael eu cyfeirio atynt i weithredu yn eu cylch – mae hynny'n fater i'r credydwr ac, mewn rhai achosion, y llysoedd. Dylai credydwyr weithredu'n gymesur wrth geisio adfer dyled, gan ystyried amgylchiadau'r dyledwyr. Fodd bynnag, mae cwynion ynglŷn â'r ffaith bod y credydwr wedi ceisio gorfodi dyled drwy asiant gorfodi y tu hwnt i gwmpas yr adran hon o'r cais am dystiolaeth.

Rydym wedi rhestru'r mathau o ymddygiad gan asiantau gorfodi sydd, yn ein tyb ni, yn annerbyniol. Efallai na fydd y rhestr hon yn cynnwys yr holl fathau o ymddygiad annerbyniol, felly canllaw yw hwn.

- **Methiant i gydymffurfio â'r gyfraith sy'n rheoli ymddygiad asiantau gorfodi, er enghraifft:**
 - bygwth defnyddio grym anghyfreithlon;
 - cael mynediad amhriodol i eiddo;
 - bygwth atafaelu nwyddau nad oes ganddynt hawl iddynt;
 - atafaelu nwyddau sydd â gwerth anghymesur i'r ddyled;
 - rhoi pwysau ar ddyledwyr i wneud cynigion talu afresymol.

- **Codi ffioedd gormodol, er enghraifft:**
 - codi am “rith” ymweliadau;
 - codi am weithgareddau nad ydynt wedi cael eu cyflawni.
- **Ymddygiad bygythiol, er enghraifft:**
 - defnydd diangen o orfodaeth;
 - gwrthio rhywun o’r neilltu er mwyn mynd drwy’r drws;
 - bygwth carchar.

Cwestiwn 1 (i unrhyw un y mae asiant gorfodi wedi cysylltu â nhw):

Os ydych chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, wedi cael profiad o gamau gweithredu gan asiant gorfodi yn y 12 mis diwethaf⁹?

- a) **A oedd yr asiant gorfodi yn Swyddog Gorfodi’r Uchel Lys neu’n asiant gorfodaeth sifil? Os nad ydych yn siŵr, dylech gynnwys manylion y ddyled a’i swm.¹⁰**
- b) **Pwy oedd y credydwr?**
- c) **Pa bryd y cafodd y cam gorfodi ei wneud (mis a blwyddyn)?**
- d) **Sut wnaeth yr asiantaeth/asiant gorfodi ymddwyn yn ystod y broses orfodi?**

Mae cwestiynau ar wahân yn cael eu gofyn isod am brofiadau pobl sy’n gwneud cwyn yn erbyn asiant gorfodi.

Cwestiwn 2 (i sefydliadau’r sector cyngori):

A yw eich sefydliad wedi profi unrhyw newid yn nifer a natur y galwadau/cysylltiadau o ran asiantau gorfodi ers i’r diwygiadau ddod i rym? Os oes gennych unrhyw ystadegau i gefnogi eich ymateb, cysylltwch â EAreview@justice.gov.uk.

⁹ Mae gennym ddiddordeb mewn cyfnod o tua 12 mis er mwyn deall y sefyllfa bresennol, ond nid oes yn rhaid i chi lynu’n gaeth wrth y cyfnod hwn wrth ymateb.

¹⁰ Bydd gwybodaeth am y math o ddyled a’i gwerth ond yn cael ei defnyddio i’n helpu i nodi’r math o asiant gorfodi ac ni fydd yn cael ei datgelu yng nghanfyddiadau’r adolygiad.

Cwestiwn 3 (i'r sector gorfodi a chredydwr):

- a) Pa fesurau a gymerwyd gan eich busnes i wneud yn siŵr bod yr asiantau gorfodi rydych yn eu defnyddio yn gweithredu o fewn y rheolau a gyflwynwyd gan ddiwygiadau 2014?**
- b) Sut ydych chi'n monitro effeithiolrwydd y mesurau hyn? Os oes gennych chi wybodaeth reoli neu dystiolaeth arall o'ch dulliau monitro cydymffurfiaeth, cysylltwch â EAreview@justice.gov.uk**

Rydym hefyd yn ymwybodol o adroddiadau o drais yn erbyn asiantau gorfodi a bod yn rhaid i asiantau gorfodi alw'r heddlu weithiau i gael diogelwch. Mynegwyd rhai pryderon yn yr adolygiad un flwyddyn, nad oedd yr heddlu, ar y pryd, yn gwbl ymwybodol o'r rheoliadau newydd ac o bwerau'r asiantau gorfodi.

Cwestiwn 4 (i bawb â diddordeb)

- a) Ydych hi'n ymwybodol o drais tuag at asiantau gorfodi wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r rheoliadau neu a oes gennych chi bryderon ynglŷn â hyn?**
- b) Yn eich profiad chi, a oes gan yr heddlu wybodaeth ac ymwybyddiaeth ddigonol o'r rheoliadau newydd?**
- c) A oes gennych chi unrhyw ddata ar drais yn erbyn asiantau gorfodi neu sawl gwaith mae'r heddlu wedi'u galw i fynychu?**

1.2 Trin dyledwyr agored i niwed

Roedd diwygiadau 2014 yn cynnwys mesurau diogelwch i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'n rhaid i bob asiant gorfodi ddangos bod ganddynt wybodaeth o'r gyfraith, dangos gofal cwsmeriaid, ymdrin â sefyllfaoedd o wrthdaro ac adnabod sefyllfaoedd bregus.

Mae gan y credydwr a'r asiant gorfodi ddyletswydd i ofalu am ddyledwyr agored i niwed. Pan fydd asiant gorfodi yn dod i gysylltiad â dyledwr agored i niwed, mae'n ofynnol iddo ddychwelyd at y credydwr i geisio eu cyngor am sut i weithredu. Yna, disgwylir i'r credydwr ddychwelyd i ymchwilio i'r honiad bod y dyledwr yn agored i niwed wrth i'r camau gorfodi gael eu hatal. Ni chaniateir i asiantau gorfodi fynd i mewn i eiddo os plentyn neu berson agored i niwed yw'r unig un sy'n bresennol.

Pan fydd y dyledwr yn berson agored i niwed, ni ellir adfer y ffioedd ar gyfer y cam gorfodi oni fydd yr asiantau gorfodi, cyn gweithredu i symud nwyddau sydd wedi'u hatafael, wedi rhoi cyfle digonol i'r dyledwr gael cymorth a chyngor.¹¹

Oherwydd yr anhawster wrth ddiffinio person agored i niwed a'r awydd i beidio â chreu rhestr ragnodol a allai eithrio rhai dyledwyr, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cynnwys diffiniad pendant o ddyledwr agored i niwed. Mae'r ddogfen Safonau Cenedlaethol yn rhestru rhai grwpiau y gellid ystyried eu bod yn agored i niwed. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr

¹¹ Rheoliadau Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau (Ffioedd) 2014, Rheoliad 12.

ac mae'n rhaid i asiantau gorfodi ofalu eu bod yn asesu pob sefyllfa ar sail achosion unigol. Nodir y rhestr hon isod:

- yr henoed;
- pobl ag anabledd;
- pobl â salwch difrifol;
- pobl sydd wedi profi profedigaeth yn ddiweddar;
- teuluoedd rhieni sengl;
- menywod beichiog;
- pobl ddi-waith;
- y rheini sy'n cael anhawster amlwg i ddeall, siarad neu ddarllen Saesneg.

Cwestiwn 5 (i unrhyw un y mae asiant gorfodi wedi cysylltu â nhw):

Os yw asiant gorfodi wedi cysylltu â chi neu rywun rydych yn ei adnabod yn y 12 mis diwethaf:

- a) A wnaethoch chi/wnaethon nhw ystyried eich bod/eu bod yn agored i niwed? Os oeddech chi/oedden nhw, sut?**
- b) Sut gwnaethoch chi/gwnaethon nhw gyfleu eich/eu bod yn agored i niwed i'r asiant/credydwr?**
- c) A wnaeth yr asiant gorfodi a/neu'r credydwr gydnabod eich bod/eu bod yn agored i niwed, a pha gamau a gymerwyd?**

Cwestiwn 6 (i sefydliadau'r sector cyngori):

A yw eich sefydliad chi wedi gweld unrhyw newid yn nifer a natur y cysylltiadau o ran dyledwyr agored i niwed ers i'r diwygiadau ddod i rym? Os oes gennych unrhyw ystadegau i gefnogi eich ymateb, cysylltwch â EAreview@justice.gov.uk.

Cwestiwn 7 (i'r sector gorfodi a chredydwyr):

- a) Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i wneud yn siŵr bod dyledwyr agored i niwed yn cael eu diogelu?**
- b) Sut ydych chi'n asesu bod dyledwr yn agored i niwed?**
- c) Pa weithdrefnau sydd gennych ar waith i ddelio â dyledwyr rydych chi wedi asesu eu bod yn agored i niwed?**
- d) A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi ynglŷn â natur fregus dyledwr?**

Adran 2: Y broses cwynion ac unioni

Mae nifer o lwybrau ar gael i rywun wneud cwyn yn erbyn asiant gorfodi, gan gynnwys cyflwyno cwynion i'r cwmni, cymdeithas fasnach, credydwr, ombwdsmon credydwr ac i'r llys.

Mae'n rhaid i asiantaethau gorfodi weithredu yn unol â gweithdrefnau cwynion a disgyblu. Dylid cyflwyno'r weithdrefn cwynion mewn iaith syml, a sicrhau ei bod yn cynnwys prif bwynt cyswllt, y cyfyngiadau amser ar gyfer delio â chwynion a chynnwys proses apelio annibynnol lle y bo'n briodol. Mae'n rhaid i asiantau gorfodi ddarparu manylion eu gweithdrefn gwyno eu hunain a gweithdrefn cwynion y credydwr, ar gais neu pan fydd amgylchiadau'n ei gwneud yn briodol i wneud hynny.

Bydd asiantau/asiantaethau gorfodi yn cael eu hannog i ddefnyddio gweithdrefnau cwynion y Gymdeithas Gorfodaeth Sifil (CIVEA) neu Gymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys.

Wrth gontractio a gweithio gydag asiantau gorfodi, y credydwr sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr asiant gorfodi yn gweithredu yn unol â'r gyfraith. Gellir dwyn y credydwr i gyfrif os nad ydynt. Mae'n rhaid i gredydwr weithredu gweithdrefn cwynion i ddyledwyr ei defnyddio. Bydd gan rai credydwr ombwdsmon a all fynd i'r afael â chwynion.

Mae'r llys yn ystyried cwynion o ran a yw asiant gorfodi yn addas i arfer a gall benderfynu, yn seiliedig ar y papurau neu mewn gwrandawriad llys, i dynnu ardystiad oddi ar asiant os yw'r gŵyn yn ddigon difrifol i fodloni'r llys nad yw'r asiant gorfodi yn addas i arfer mwyach.

Mae'n rhaid i asiantau gorfodaeth sifil dalu bond diogelwch o £10,000 i'r llys pan fyddan nhw'n gwneud cais am dystysgrif. Os bydd barnwr yn penderfynu bod sail i gŵyn yn erbyn asiant gorfodi, yna gall ef neu hi orchymyn i'r bond diogelwch gael ei fforffedu naill ai'n llwyr, neu'n rhannol, er mwyn gwneud iawn i'r achwynwr am fethiant yr asiant gorfodi i gyflawni ei ddyletswyddau a/neu i dalu costau'r achwynwr am eu cynrychiolaeth.

Wrth gyfrannu at yr adolygiad un flwyddyn yn 2015, dywedodd y sector cynghori fod dyledwyr yn profi anawsterau wrth wneud cwynion yn erbyn asiantau gorfodi. Y pryder, yn benodol, oedd y dybiaeth y byddai'r gost yn uchel, a pha mor hwylus fyddai gwneud cwyn i llys.

Cwestiwn 8 (i unrhyw un y mae asiant gorfodi wedi cysylltu â nhw)

Os oedd gennych chi gŵyn yn erbyn asiant gorfodi yn y 12 mis diwethaf,

- a) Sut cawsoch chi wybodaeth am sut i wneud cwyn?
- b) A oedd y wybodaeth honno yn hawdd ei deall?
- c) Os gwnaethoch gŵyn, i bwy y gwnaethoch ei chyflwyno?
- d) Os na wnaethoch gŵyn, pam na wnaethoch ei chyflwyno?
- e) A oeddech chi'n fodlon â'r ffordd y cafodd y gŵyn ei thrin? Os nad oeddech chi, a wnaethoch chi gymryd unrhyw gamau pellach?
- f) Os dyfarnwyd bod cyfiawnhad dros eich cwyn, a oeddech chi'n fodlon â'r gosb neu'r cam unioni a osodwyd?

Cwestiwn 9 (i sefydliadau'r sector cynghori, y sector gorfodi a chredydwyr)

A oes gennych chi unrhyw ystadegau diweddar neu dystiolaeth arall ynglŷn â nifer a natur y cwynion a wnaed yn erbyn asiantau gorfodi ac a yw unrhyw rai o'r rhain wedi newid ers y diwygiadau? Os oes gennych chi ffigurau, anfonwch e-bost at Eareview@justice.gov.uk i drafod yr hyn sydd gennych a'r ffordd orau i'w chyflwyno i ni.

Rydym yn awyddus i gael barn ynghylch a oes angen gwella rheoliadau ar gosbau ar gyfer cwynion ac os felly, sut. Mae rhagor o gwestiynau am reoleiddio asiantau gorfodi yn adran 7.

Cwestiwn 10 (i bawb â diddordeb)

Ydych chi'n credu bod y cosbau y gall y sefydliad neu'r llys sy'n ystyried y gŵyn eu gosod yn effeithiol a chymesur? Os nad ydych chi, nodwch pa fathau eraill o gosbau y dylid eu caniatáu?

Adran 3: Hyfforddi ac ardystio

Roedd y diwygiadau'n cyflwyno proses hyfforddi ac ardystio newydd ar gyfer asiantau gorfodaeth sifil, a gyflwynir yn Rheoliadau Ardystio Asiantau Gorfodi 2014.

Mae Rheoliadau 2014 yn mynnu bod asiantau gorfodaeth sifil yn cael eu hardystio gan lys sirol. Mae'n rhaid adnewyddu'r dystysgrif bob dwy flynedd. I fod yn gymwys i gael tystysgrif, mae'n rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r llys eu bod yn berson "addas a phriodol" i weithredu fel asiant gorfodi. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd brofi eu bod yn meddu ar "wybodaeth ddigonol am y gyfraith a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â phwerau gorfodi" a'u bod yn darparu bond diogelwch.

Cwestiwn 11 (i bawb)

Ydych chi wedi profi neu a ydych chi'n ymwybodol o unrhyw anawsterau ymarferol gyda'r weithdrefn i wneud cais i'r llys am dystysgrif i fod yn asiant gorfodaeth sifil?

Cwestiwn 12 (i bawb)

Ydych chi'n credu bod y gofynion hyfforddiant yn ddigonol er mwyn galluogi asiantau gorfodaeth sifil i gyflawni eu dyletswyddau? Os nad ydych chi, a oes unrhyw ofynion hyfforddiant ychwanegol fyddai'n fuddiol?

Adran 4: Proses agored a chyson

Hysbysiadau safonol

Un o brif amcanion diwygiadau 2014 oedd sicrhau mwy o safoni a thryloywder i'r broses orfodaeth a'r ffioedd y gellir eu codi. Cyn i asiant gorfodi allu ymweld â dyledwr, mae'n rhaid iddo anfon llythyr safonol atynt (llythyr cydymffurfiaeth) yn eu hysbysu o'r ddyled sy'n ddyledus, beth yw'r ffioedd a godir arnynt, a sut mae cysylltu â'r asiant gorfodi. Yna, mae'n rhaid caniatáu saith niwrnod llawn ar ôl y llythyr hwn (ac eithrio dydd Sul a Gwyliau'r Banc) i daliad gael ei wneud neu er mwyn llunio cynllun talu, cyn ymweld â'r dyledwr (y cam gorfodi). Y bwriad wrth ddefnyddio llythyrau a hysbysiadau safonol, penodol yw atal asiantaethau rhag anfon hysbysiadau ymosodol neu gamarweiniol.

Canfu'r adolygiad un flwyddyn mai'r farn yn gyffredinol oedd bod y gofyniad i anfon llythyr cydymffurfiaeth safonol wedi gwella ymwybyddiaeth, wedi egluro'r broses ac wedi cyfeirio pobl at gyngor priodol.

Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r ffaith nad oedd hysbysiad penodol yn ystod y cam ymweliad gorfodi (h.y. y llythyr y mae asiant gorfodi yn ei adael os nad yw'r dyledwr adref adeg yr ymweliad). Dywedodd rhai o gynrychiolwyr y sector cynghori eu bod wedi clywed am enghreifftiau o lythyrau bygythiol neu gamarweiniol yn cael eu gadael.

Cwestiwn 13 (i bawb):

O fewn y 12 mis diwethaf, a oes gennych chi unrhyw dystiolaeth o lythyrau ymosodol neu gamarweiniol yn cael eu gadael i ddyledwyr gan asiantau gorfodi? Os oes, beth oedd cynnwys y llythyrau hyn?

Adran 5: Y ffioedd a godir a'r cyfraddau adfer dyledion

5.1 Y ffioedd a godir

Roedd diwygiadau 2014 yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng darparu cydnabyddiaeth ariannol ddigonol i asiantau gorfodi redeg busnes, heb wobrwyo'r diwydiant yn ormodol a hynny ar draul dyledwyr.

Cyflwynodd Rheoliadau Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau (Ffioedd) 2014¹² un strwythur ffioedd a oedd yn nodi'n glir yr hyn y gellir ei godi ar ddyledwr yn ystod pob cam o'r camau gorfodi.

Mae'r strwythur ffioedd sefydlog yn cynnwys tri cham: 1) cydymffurfio, 2) gorfodi, a 3) gwerthu. Mae manylion am faint y gellir ei godi yn ystod pob cam yn **Atodiad C**. Sail y strwythur hwn yw cymell setliad yn y cam cydymffurfio cyn y bydd angen cynnal ymweliad a rheoli nwyddau.

Yn ystod y cam cydymffurfio, anfonir llythyr sy'n hysbysu'r dyledwr ynglŷn â'r broses a faint a godir arnynt. Mae'n rhaid caniatáu saith niwrnod clir ar ôl y llythyr cydymffurfiaeth (ac eithrio dydd Sul a gwyliau'r banc) er mwyn gallu gwneud taliad neu greu cynllun

¹² <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1/made>

taliadau, cyn symud ymlaen i'r cam gorfodi. Bydd y ffioedd yn parhau i gael eu codi ar y dyledwr, ond drwy setlo yn ystod y cam cydymffurfio, cedwir unrhyw gostau ychwanegol i'r lefel isaf bosib, a bydd camau mwy ymwthiol yn cael eu hosgoi.

Cwestiwn 14 (i bawb)

- a) Ydych chi'n credu bod y strwythur ffioedd yn gweithio i annog asiantau gorfodi a dyledwyr i setlo yn gynnar ac i leihau'r effaith ariannol ar ddyledwyr?**
- b) Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?**

Cwestiwn 15 (i bawb)

- a) A oes yna unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud i'r strwythur ffioedd er mwyn annog setliad cynharach?**

Os oes gennych chi unrhyw ystadegau i ategu eich ymateb i gwestiynau 15 ac 16, anfonwch e-bost at EAreview@justice.gov.uk i drafod beth sydd gennych chi a'r ffordd orau i'w gyflwyno i ni.

5.2 Cyfraddau adfer dyledion

Yn ogystal â chymell taliad cynnar, mae'n bwysig nad yw'r diwygiadau yn lleihau effeithiolrwydd gorfodaeth. Mae nifer o greydwyr yn unigolion neu'n fusnesau bach, a gallant ddioddef cyni ariannol difrifol os na thelir dyledion.

Ar gyfer yr adolygiad un flwyddyn, cynhaliwyd ymarfer pwysig gydag asiantau gorfodaeth sifil a Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys drwy eu cyrff masnachu i asesu cyfraddau adfer dyledion yn ystod camau gwahanol. Roedd y data a ddarparwyd yn 2015 yn awgrymu bod effeithiolrwydd cyffredinol y broses orfodaeth wedi gwella, gyda chyfran uwch o ddyledion yn cael eu gorfodi'n llwyddiannus ar y pwynt un flwyddyn na'r nifer a ragwelwyd.

Rydym yn cynnal ymarfer ar wahân i gasglu tystiolaeth gan CIVEA a Chymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys ynglŷn â chyfraddau adfer dyledion, a fydd yn cyfrannu at yr adolygiad.

Adran 6: Adfer Ôl-ddyledion Rhent Masnachol

Roedd Rheoliadau Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau 2013 yn cynnwys gweithdrefn newydd o'r enw Adfer Ôl-ddyledion Rhent Masnachol (CRAR), sy'n galluogi landlord eiddo masnachol i adfer ôl-ddyledion rhent drwy gymryd rheolaeth dros nwyddau'r tenant a'u gwerthu, heb orfod mynd â'r mater i'r llys.

Mae CRAR wedi disodli'r gyfraith atafaelu, a oedd hefyd yn weithdrefn y tu allan i'r llys. Mae CRAR yn cynnwys dulliau diogelu gweithdrefnau newydd i denantiaid. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i roi hysbysiad camau gorfodi o saith niwrnod i denantiaid yn ogystal â chyfyngiadau o ran pryd a sut y gall asiant gorfodi gael mynediad i eiddo a beth allant ei gymryd a'r hyn na allant ei gymryd.

Dim ond ar gyfer y prif rent, TAW a llog y mae'r weithdrefn CRAR yn berthnasol. Nid yw'n berthnasol i daliadau eraill megis taliadau gwasanaeth, premiwm a chyfraddau yswiriant.

Cwestiwn 16 (i bawb sydd â diddordeb neu brofiad o ddefnyddio'r weithdrefn CRAR):

- a) Ydych chi'n credu bod y weithdrefn CRAR yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng darparu diogelwch rhag camau gweithredu ymosodol gan asiantau gorfodi a sicrhau ar yr un pryd bod modd casglu dyledion yn effeithiol?
- b) Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu eich barn chi?

Adran 7 - Rheoliadau pellach

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, un o nodau diwygiadau 2014 oedd lleihau rheoliadau gormodol ar fusnesau, a sicrhau diogelwch effeithiol i ddyledwyr yr un pryd.

Yn ystod yr ymgynghoriad gwreiddiol ar ddyluniad diwygiadau 2014, roedd rhai grwpiau yn dadlau y dylai'r fframwaith rheoleiddiol arfaethedig fynd ymhellach. Byddai wedi bod yn well ganddynt weld rheoleiddiwr annibynnol yn cael ei gyflwyno.

Nid oes unrhyw gorff rheoleiddiol ar gyfer asiantau gorfodi, er bod cyrff masnachu yn bodoli y gallant ymuno â nhw, sy'n cynnig arweiniad ar y ddeddfwriaeth, hyfforddiant ac yn delio â chwynion. Mae gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys ac asiantau gorfodaeth sifil yr awdurdod i weithredu fel y cyfryw gan y llys. Cyflwynir tystysgrifau i Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys i ymarfer gan yr Uwch Feistr, o dan awdurdod dirprwyedig i wneud hynny gan yr Arglwydd Ganghellor, ac mae asiantau gorfodi yn cael eu hardystio gan farnwyr yn y llys sirol. Mae'r Uwch Feistr a'r llys sirol yn ystyried cwynion am asiantau gorfodi ac mae ganddynt y pŵer i ddiddymu tystysgrifau ymarfer.

Yn 2014, nid oedd llywodraeth y dydd o'r farn bod angen cyflwyno rheoleiddiwr annibynnol. Ystyriwyd bod newidiadau i'r gyfraith, cyflwyno strwythur ffioedd tryloyw a gwella'r broses ardystio gan lysoedd yn ddull mwy cymesur a phenodol i edrych ar y pryderon ynghylch sut mae asiantau gorfodi yn gweithredu.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd cynghrair o sefydliadau cyngor am ddyled adroddiad o'r enw "Taking Control: The need for fundamental reform"¹³ a oedd yn galw am i'r sector asiantau gorfodi gael ei reoleiddio'n annibynnol. Mae'r grŵp Taking Control wedi awgrymu y dylai fod gan reoleiddiwr annibynnol y dyletswyddau canlynol: cymeradwyo tystysgrifau ymarfer; monitro arferion busnes; pennu safonau ymarfer a gofynion hyfforddiant, a mynd i'r afael â chwynion a phennu cosbau.

¹³<https://www.bailiffreform.org/storage/app/media/Taking%20Control%20report%20March%202017.pdf>

Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y mesurau hyn. Gallai fod angen cyllid cyhoeddus hefyd a gallai hyn arwain at gostau ychwanegol i'r diwydiant gorfodi. Byddai lefel y cyllid yn ddibynnol ar y model rheoleiddiol sy'n cael ei fabwysiadu. Ymhlith y modelau rheoleiddiol posib mae: sefydlu rheoleiddiwr annibynnol newydd; defnyddio rheoleiddiwr annibynnol presennol neu sefydlu Cyngor Cynghorol (yn debyg i'r Cyngor a sefydlwyd yn yr Alban¹⁴). Gallai'r modelau rheoleiddiol posib ymgymryd â phob un neu rai o'r dyletswyddau y mae'r Grŵp Taking Control wedi awgrymu y gallai rheoleiddiwr annibynnol eu cyflawni.

Mae'r llywodraeth yn bwriadu adolygu'r broses o weithredu diwygiadau 2014 cyn penderfynu a oes angen diwygiadau pellach. Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio'r cais hwn am dystiolaeth i gasglu safbwyntiau gan bawb sydd â diddordeb ynghylch a ddylai asiantau gorfodi gael rheoleiddiwr annibynnol ac, os felly, pa swyddogaethau y dylai rheoleiddiwr eu cyflawni a sut y dylid ariannu'r rheoleiddiwr.

Rydym hefyd yn awyddus i gasglu safbwyntiau ynghylch a oes unrhyw gamau eraill y gellid eu cymryd i wella'r broses o reoleiddio asiantau gorfodi.

Cwestiynau (i bawb â diddordeb)

Cwestiwn 17:

Ydych chi'n credu bod y lefel bresennol o reoleiddio'r diwydiant asiantau gorfodi yn ddigonol? Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Cwestiwn 18:

Ydych chi'n credu y dylai asiantau gorfodi gael eu rheoleiddio gan reoleiddiwr annibynnol? Os felly, pa bwerau, cwmpas a strwythur y dylai fod ar gael i'r rheoleiddiwr annibynnol a sut y dylid ariannu hyn?

Cwestiwn 19:

Fel dewis arall i sefydlu rheoleiddiwr annibynnol, ydych chi'n credu bod unrhyw gamau eraill y dylai'r llywodraeth eu cymryd i wella'r broses o reoleiddio asiantau gorfodi?

¹⁴ Gweler Adran 13 Deddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010.

Camau Nesaf

Bydd y cais am dystiolaeth yn cau am 12:00 hanner dydd ar 17 Chwefror 2019. Yn dilyn y cais am dystiolaeth, rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hail adolygiad o weithredu'r diwygiadau i'r asiantau gorfodi yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Bydd yr adolygiad yn nodi a ydym yn bwriadu cyflwyno unrhyw ddiwygiadau pellach ar gyfer rheoleiddio asiantau gorfodi. Byddai'n rhaid ymgynghori ynghylch unrhyw ddiwygiadau pellach a gynigir er mwyn egluro a chadarnhau'r effeithiau llawn ar fusnesau, defnyddwyr a'r trydydd sector.

DRAFT

Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os ydych yn dymuno i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodedb o'r bobl neu sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn at:

**Civil Procedure and Enforcement Team
Ministry of Justice**

**Civil Justice and Law Division
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

E-bost: EAreview@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

Copiâu ychwanegol

Gellir gwneud cais am gopiâu o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan EAreview@justice.gov.uk

Cyhoeddi ymateb

Bydd yr ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth yn cyfrannu at ail adolygiad ôl-weithredu'r llywodraeth o'r diwygiadau i asiantau gorfodi. Cyhoeddir yr adolygiad hwn erbyn diwedd 2019. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Efallai y bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo'i hun, yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol chi yn unol â'r GDPR.

Atodiad A: Rhestr o'r termau a ddefnyddir yn y cais hwn am dystiolaeth

Y sector cynghori – elusennau a sefydliadau sy'n rhoi cyngor am ddyledion i bobl sy'n pryderu am ddyledion.

CIVEA - Y Gymdeithas Gorfodaeth Sifil. Mae CIVEA yn gymdeithas sy'n cael ei hariannu'n annibynnol i gynrychioli asiantau gorfodaeth sifil yng Nghymru a Lloegr. Maent yn pennu ac yn gorfodi safonau drwy hyfforddiant ac addysg. Mae gan y Gymdeithas God Ymddygiad a Chanllaw Arfer Da sy'n orfodol i bob un o'i haelodau. Mae ganddi weithdrefn cwynion am ei haelodau.

Asiant gorfodaeth sifil - Pobl yw asiantau gorfodi sydd wedi'u hawdurdodi a'u hardystio gan y llys i gymryd rheolaeth dros nwyddau yn unol ag adran 64 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Asiant gorfodi'r llys sirol (beili) - rhywun a gyflogir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLIThEM) ac sy'n gyfrifol am orfodi gorchmynion llys a gyflwynir drwy'r llysoedd sirol.

Credydwr – Mae'r term hwn yn cyfeirio at y cwmni, sefydliad neu berson sydd wedi cyflogi asiant gorfodi i orfodi dyled ar eu rhan.

Asiantau gorfodi – mae hyn yn cyfeirio at Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys ac asiantau gorfodaeth sifil.

Camau gorfodi:

- Cam cydymffurfio: - pob gweithgarwch o'r asiant gorfodi yn cael cyfarwyddiadau hyd at, a heb fod yn cynnwys, cychwyn y cam gorfodi. Gall hyn gynnwys gweithgareddau fel archwilio cefndir y dyledwyr neu anfon llythyr at y dyledwr.
- Cam gorfodi: - gweithgareddau o'r ymweliad cyntaf â'r eiddo hyd at, ond heb fod yn cynnwys, y cam Gwerthu neu Waredu, lle mae'r asiant gorfodi a'r dyledwr naill ai'n ymrwymo i gytundeb nwyddau dan reolaeth a bod y dyledwr yn torri amodau'r cytundeb, neu nid oes cytundeb yn cael ei wneud.
- Cam gwerthu neu waredu: - gweithgareddau sy'n ymwneud â gorfodi o'r ymweliad cyntaf â'r eiddo i gludo nwyddau i'r man gwerthu, neu o gychwyn paratoi i werthu

os yw'r gwerthu i ddigwydd ar yr eiddo, nes bod y broses werthu neu waredu wedi'i chwblhau.

Busnes Asiant Gorfodi - Fel arfer, mae asiantau gorfodi yn weithwyr neu'n isgcontractwyr cwmnïau sy'n tendro am gcontractau gan gredydwyr, awdurdodau lleol neu yn achos Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys, dyfarniadau llys. Mae maint y busnesau'n amrywio o un asiant i gwmnïau sy'n rhoi gwaith i gannoedd o asiantau gorfodi.

Swyddog Gorfodi'r Uchel Lys – rhywun sydd wedi'i awdurdodi gan yr Arglwydd Ganghellor i orfodi Gwritiau Rheolaeth a gwritiau eraill yn unol â Rheoliadau Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys 2004, ac Atodlen 7 Deddf Llysoedd 2003.

Cymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys – Mae'r Gymdeithas yn darparu hyfforddiant a chanllawiau rheoleiddiol i'w haelodau. Mae ganddi weithdrefn gwyno am ymddygiad Swyddog Gorfodi'r Uchel Lys neu ei asiant gorfodi.

Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau – dyma'r weithdrefn o dan writ neu warant rheolaeth i sicrhau nwyddau'r dyledwr. Mae hyn yn golygu gwneud rhestr eiddo o'r nwyddau a, lle bo angen, creu cytundeb nwyddau dan reolaeth sy'n ymwneud â defnyddio'r nwyddau hynny wedi'i lofnodi gan y dyledwr.

Gwarantau Rheolaeth – mae'r rhain yn cael eu cyflwyno gan y llys sirol i awdurdodi asiantau gorfodi i fynd i gartref neu gyfeiriad busnes dyledwr dyfarniad. I gasglu arian (neu symiau arian) sy'n ddyledus o dan ddyled dyfarniad neu gymryd nwyddau o'r cartref neu'r busnes i'w gwerthu mewn arwerthiant. Nid oes modd rhoi Gwarant Rheolaeth am swm mwy na £5,000 ac eithrio i orfodi cytundeb wedi'i wneud o dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974.

Gwritiau Rheolaeth – mae'r rhain yn cael eu cyflwyno gan yr Uchel Lys i roi awdurdod i Swyddog Gorfodi'r Uchel Lys i gymryd rheolaeth a gwerthu nwyddau dyledwr er mwyn bodloni dyled dyfarniad.

Atodiad B:

Y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio asiantau gorfodi a gyflwynwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007

Rheoliadau Ardystio Asiantau Gorfodi 2014

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/421/contents/made>

Rheolau Trefniadaeth Sifil Rhannau 83 ac 84 Gwritiau a Gwarantau a Gorfodaeth drwy Gymryd Rheolaeth Dros Nwyddau

<https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules>

Rheoliadau Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau 2013 -

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1894/contents/made>

Rheoliadau Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau (Ffioedd) 2014

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1/contents/made>

Atodiad C: Ffioedd Asiant Gorfodi yn unol â Rheoliadau Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau (Ffioedd) 2014

Gorfodaeth nad yw'n orfodaeth gan yr Uchel Lys

<i>Cam Ffi</i>	<i>Ffi Sefydlog</i>	<i>Ffi canran (rheoliad 7): canran y swm i'w adfer sy'n fwy na £1500</i>
Cam cydymffurfio	£75.00	0%
Cam gorfodi	£235.00	7.5%
Cam gwerthu neu waredu	£110.00	7.5%

Gorfodaeth gan yr Uchel Lys

<i>Cam Ffi</i>	<i>Ffi Sefydlog</i>	<i>Ffi canran (rheoliad 7): canran y swm i'w adfer sy'n fwy na £1000</i>
Cam cydymffurfio	£75.00	0%
Cam gorfodi cyntaf	£190.00	7.5%
Ail gam gorfodi	£495.00	0%
Cam gwerthu neu waredu	£525.00	7.5%

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau'r llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

DRAFT

[leave blank – inside back cover]



© Hawlfraint y Goron 2018

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y sawl biau'r hawlfraint berthnasol.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i EAreview@justice.gov.uk